



GWWRANDEWCH 2024

Gwasanaethau
Clyw Plant yng
Nghymru

Adroddiad gan y Gymdeithas
Genedlaethol i Blant Byddar



National
Deaf Children's
Society
CYMRU

Awdioleg pediatrig plant yng Nghymru

Adroddiad gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, diweddarwyd
Mawrth 2025



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ein harolwg cenedlaethol o wasanaethau awdioleg pediatrig (gwasanaethau clyw plant) GIG yng Nghymru, a gynhaliwyd yng Ngaeaf 2023. Dyma'r tro cyntaf i gasgliad data o'r fath i gael ei gynnal gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yng Nghymru, ond mae arolwg ac adroddiad blynyddol wedi cael eu cyhoeddi yn Lloegr ers 2017, sydd wedi bod yn ddefnyddiol wrth nodi ac olrhain tueddiadau mewn awdioleg pediatrig.

Yn ogystal â chaniatáu inni gasglu tystiolaeth i ddylanwadu ar ddadleuon polisi cenedlaethol, mae adroddiad *Listen Up* Lloegr wedi bod yn adnodd defnyddiol i weithwyr awdioleg proffesiynol i feincnodi eu gwasanaethau eu hunain ac i gynllunio gwelliannau i wasanaethau, ac fel tystiolaeth o angen ar gyfer achosion busnes. Gobeithiwn y bydd adroddiad *Gwrandewch* cyntaf Cymru hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer trafodaethau gyda rhanddeiliaid eraill, megis rheolwyr Bwrdd Iechyd ac arweinyddiaeth GIG, gan ddarparu tystiolaeth gyflenwol ddiweddaraf am ddarpariaeth gwasanaeth awdioleg pediatrig.

Ar gyfer arolwg 2023 yng Nghymru, addaswyd cwestiynau o set lawnach o gwestiynau i arolwg parhaus *Listen Up* Lloegr. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth gan awdiolegwyr yng Nghymru wrth gyflwyno arolwg *Gwrandewch*.

Anfonwyd yr arolwg i'r saith Bwrdd Iechyd sy'n darparu gwasanaethau awdioleg pediatrig yng Nghymru. Fel yn achos arolygon blaenorol *Listen Up* yn Lloegr, cyflwynodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar gais rhyddid gwybodaeth (FOI) er mwyn sicrhau cymaint o atebion amserol â phosib. Gyda'i gilydd, atebodd pum Bwrdd Iechyd i'r arolwg cyn y dyddiad cau ac fe'u cynhwyswyd yn ein dadansoddiadau. Ymatebodd un Bwrdd Iechyd ar ôl y dyddiad cau a, lle y nodir, defnyddiwyd y data'n rhannol o fewn y dadansoddiad. Ni wnaeth un Bwrdd Iechyd ymateb. Rhoddodd hyn gyfradd ymateb o 71% o wasanaethau awdioleg yng Nghymru yn ymateb cyn y dyddiad cau (86% os cynhwyswyd y gwasanaeth a ymatebodd ar ôl y dyddiad cau).

Bwriad arolygon unigol i bob gwlad yw galluogi adroddiadau wedi'u teilwra, ond hefyd i ganiatáu rhywfaint o gymhariaeth o fewn y DU, lle y bo'n briodol. Ond, dylid dehongli canlyniadau a gwahaniaethau gyda gofal oherwydd strwythur a maint gwahanol pob system gofal iechyd ac amrywioldeb mewn cyfraddau ymatebion ac ansawdd ymatebion rhwng gwasanaethau. Hefyd, nid yw pob gwasanaeth wedi ateb pob cwestiwn – naill ai oherwydd nid oedd cwestiwn yn berthnasol i'w gwasanaeth unigol, gan na allent gael y data, neu am reswm amhenodol – sy'n golygu bod y ffigyrau cyfradd ymateb, ac felly'r canfyddiadau dilynol i bob cwestiwn, wedi cael eu dehongli gyda gofal.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un o'r gwasanaethau awdioleg a atebodd i'r arolwg. Er bod yr adroddiad yn adlewyrchu rhai materion sy'n peri gofid ac amrywiadau ar draws gwasanaethau, mae'n tynnu sylw at y ffaith bod y mwyafrif o adrannau awdioleg yng Nghymru wedi'u hymrwymo i rannu tystiolaeth, hyd yn oed pan all eu hamser ac adnoddau eu hunain fod o dan bwysau.

Yn gyffredinol, mae'r ymatebion i'r arolwg yn pwysleisio'r cyfleoedd a'r heriau y mae gwasanaethau awdioleg pediatriig yng Nghymru yn eu hwynebu, rhai sy'n unigryw i Gymru a rhai sy'n gyffredin ledled y DU. Y prif themâu a amlygwyd oedd:

- **Heriau**

- **Amseroedd aros hir ar gyfer asesiadau cyntaf** i blant wedi'u hatgyfeirio at awdioleg drwy lwybrau heblaw am raglen Sgrinio Clyw Babanod Cymru (NBHSW), ar wahân i'r rheini a nodir i fod yn achosion brys. Mae hyn yn peri risg o oedi wrth ganfod byddardod mewn plant nad ydynt yn cael eu canfod i fod yn fyddar ar adeg sgrinio babanod.
- **Amseroedd aros hir am adolygiadau cymhorthion clyw.** Mae hyn yn peri risg o golli gwaethgiad mewn lefelau clyw plant byddar sy'n defnyddio cymhorthion clyw a gosodiadau cymhorthion clyw hen, a all gael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd a chyfleoedd dysgu i blant byddar.
- **Amseroedd aros sylweddol am wasanaethau'r glust, y trwyn a'r gwddf (ENT).** Mae hyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar ganlyniadau i blant sydd â byddardod cymysg a thros dro.
- **Gwasanaethau yn adrodd cynnydd mewn galw** am y rhan fwyaf o fathau o apwyntiadau, megis atgyfeiriadau gan sgrinio ysgol ac asesiadau cymhleth. Er mwyn gallu ymdopi â'r galw hwn, adroddwyd bod angen cyflwyno mwy o gyfleusterau profi, darparu hyfforddiant arbenigol i staff a gweithredu llwybr asesiad anghenion cymhleth.
- Mae awdiolegwyr pediatriig yng Nghymru yn gymwys iawn. Ond, **adroddodd gwasanaethau rwystrau rhag sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus** megis cyllid, amser i astudio ac argaeledd lleol.
- Disgrifiodd gwasanaethau **amrywioldeb** yn y modd y caiff eu **cyllid** ei ddarparu.

- **Cyfleoedd**

- Yng Nghymru, **adroddwyd bod 23% o blant byddar wedi cael eu canfod i fod yn fyddar yn dilyn atgyfeiriad o raglen NBHSW** yn ystod cyfnod yr arolwg. Mae'r mwyafrif o blant yng Nghymru (76%) yn cael eu hadnabod i fod yn fyddar yn ddiweddarach mewn bywyd drwy lwybrau eraill i wasanaethau awdioleg. Deallwn fod polisi presennol sgrinio clyw babanod yng Nghymru yn cael ei adolygu, a chrosawn y cyfle a ddaw yn sgil hwn i adnabod mwy o blant sydd â nam ar y clyw parhaol mewn plentyndod (PCHI¹) yn iau.

- **Arfer da**

- Roedd pob gwasanaeth a ymatebodd yn gallu gosod cymhorthion clyw, os bydd angen, o fewn 28 diwrnod.
- Cymru yw'r unig wlad o fewn y DU sydd wedi **ymgorffori sicrhau ansawdd gorfodol** o fewn gwasanaethau awdioleg pediatriig.
- Mae pob gwasanaeth a ymatebodd yn cymryd rhan mewn adolygiad gan gymheiriaid allanol o ganlyniadau ymateb clywedol coesyn yr ymennydd (ABR), sydd yn arfer a argymhellir er mwyn sicrhau ansawdd a diogelwch y prawf diagnostig ABR, sy'n hanfodol ar gyfer nodi byddardod mewn babanod a phlant.
- Cynigodd pob gwasanaeth oriau agor estynedig a chynigodd y rhan fwyaf o wasanaethau ddarpariaeth yn y gymuned ac apwyntiadau ffôn/fideo.
- **Mae gwasanaethau awdioleg plant yn ymgysylltu yn rheolaidd â gwasanaethau plant eraill**, megis gwasanaethau addysg arbenigol lleol, therapi lleferydd ac iaith a phediatreg, ond gall meini prawf atgyfeirio a ffyrdd o gydweithio amrywio.
- Roedd tystiolaeth o arfer da wrth bontio i wasanaethau oedolion.

¹ Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, diffinnir PCHI a/neu 'byddardod' fel colled clyw parhaol ar unrhyw lefel (mân-llwyr), gan effeithio ar un neu ddwy glust.

Diagnosis o PCHI

Yng Nghymru, **adroddwyd bod 23% o blant byddar wedi cael eu hadnabod yn fyddar yn dilyn atgyfeiriad o raglen NBHSW** yn ystod cyfnod yr arolwg. Mae mwyafrif y plant byddar yng Nghymru (76%) yn cael eu hadnabod yn ddiweddarach mewn bywyd drwy lwybrau amgen i wasanaethau awdioleg.

Mae polisi sgrinio clyw babanod yng Nghymru yn wahanol i un Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ei fwriad yw adnabod byddardod dwyochrog sylweddol, o lefel cymedrol neu uwch. Yng Nghymru, os caiff baban iach ymateb clir mewn un glust ond nid yn y glust arall, mae teuluoedd yn cael y cyfle i ddewis i gael dilyniant gan awdioleg. Gwneir atgyfeiriad ar gyfer asesiad diagnostig awdioleg yn awtomatig i bob baban heb ymateb clir mewn dwy glust, ac i fabanod risg uchel sydd ag ymateb clir dim ond yn yr un glust. Mae colled clyw unochrog a mân yn cael eu hadnabod gan NBHSW, ond mae'r rhain yn dod y tu allan i'r cyflwr targed ac fel rheol yn cael eu hadnabod yn ddiweddarach drwy lwybrau atgyfeirio eraill, gan gynnwys sgrinio clyw ar gyfer mynediad i'r ysgol.

Mae'n bosib gall newid i sgrinio clyw babanod i bolisi dwy glust arwain at adnabyddiaeth gynharach o fyddardod mewn rhai plant sydd ar hyn o bryd yn cael eu hadnabod yn fyddar drwy wahanol lwybrau atgyfeirio. Croesawn y cyfle a ddaw yn sgil hwn i gynyddu nifer y plant sydd â PCHI sy'n cael eu hadnabod yn iau.

Byddardod dros dro

Mae plant sydd yn defnyddio cymhorthion clyw am fyddardod dros dro yn cynrychioli 22% o lwyth achosion Awdioleg. Ar gyfartaledd, mae plant sydd â chlust ludiog yn aros am hyd at 193 diwrnod cyn cael eu gweld gan ENT am y tro cyntaf ac yn aros blwyddyn o leiaf am lawdriniaeth gromed. Mae gwasanaethau'n adrodd, oherwydd yr amseroedd aros hir am ENT a llawdriniaeth gromed, eu bod yn gosod cymhorthion clyw ar fwy o blant, sydd yn arfer da ond sydd wedi cynyddu'r galw am osodiadau cymhorthion clyw ac adolygiadau. Dim ond dau wasanaeth oedd yn cynnig cymhorthion clyw i blant sy'n aros am lawdriniaeth gromed. Roedd cyfanswm o 355 o blant gyda chymorth clyw i reoli byddardod dros dro a chafodd 343 o blant ledled Cymru eu hatgyfeirio at ENT dros y flwyddyn ddiwethaf.

Amseroedd aros

Ni chyflawnodd unrhyw un o'r gwasanaethau a ddarparodd ddata'r targed o 42 diwrnod am atgyfeiriad cyffredin i asesiad cyntaf i fabanod a phlant nad ydynt wedi'u hatgyfeirio o raglen NBHSW. Yr amser aros hwyaf ar gyfartaledd am atgyfeiriadau cyffredin newydd oedd 290 diwrnod. Gan fod y mwyafrif o blant byddar yn cael eu hadnabod y tu allan i raglen sgrinio clyw babanod, mae yna berygl o oedi o ran adnabod plant byddar i'r rheini nad ydynt yn cael eu hadnabod gan y sgrinio a/neu sy'n dod yn fyddar yn ddiweddarach.

Adroddodd pum gwasanaeth eu bod, at gyfartaledd, yn gallu gosod cymhorthion clyw, lle bo angen, o fewn 28 diwrnod, sy'n dangos tystiolaeth o arfer da. Ond, methodd pedwar allan o bum gwasanaeth gynnig adolygiadau cymhorthion clyw dilynol cyffredin ar yr amser disgwylidig, gyda'r oedi yn amrywio o bump i 189 diwrnod. Methodd dau allan o bum gwasanaeth gynnig apwyntiadau ar gyfer mowldiau clust newydd o fewn dau ddiwrnod gwaith.

Yn yr un modd, i blant nad oeddent yn defnyddio cymhorthion clyw ond bod angen arnynt asesiadau pellach a/neu fonitro, roedd oedi i'r apwyntiadau dilynol cyffredin, adroddodd pob gwasanaeth fod apwyntiadau dilynol cyffredin wedi'u hoedi o rhwng 10 i 147 diwrnod ar ôl y dyddiad arolygu arfaethedig.

Amrywiad gwasanaeth a llwyth achosion

O'r pum gwasanaeth a ymatebodd i'r arolwg, roedd y poblogaethau a gafwyd eu cynnwys yn wahanol iawn ac o ganlyniad roedd y llwythi achosion o blant gyda PCHI yr oeddent yn eu cefnogi yn amrywiol iawn (gan amrywio o lwyth achosion o 28 i 471). Gallai hyn peri risg i'r gwasanaethau llai hynny, yn enwedig o ran rheoli cyflyrau mwy prin, megis anhwylder sbectrwm niwropathi clywedol (ANSD), ac wrth asesu plant sydd ag anghenion cymhleth neu niwroamrywiaeth.

Adroddodd gwasanaethau fod diffyg datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) mewn meysydd technegau asesu cymhleth a hyfforddiant uwch. Cynigodd rhai gwasanaethau llai o opsiynau am asesu plant gydag anghenion cymhleth, a allai arwain at amrywiaethau rhanbarthol mewn gofal.

Staffio a hyfforddiant

Roedd y mwyafrif o'r staff awdioleg pediatriig wedi'u cyflogi fel Band 7 AfC, wedyn Band 8 AfC ac wedyn Band 6 AfC.

Adroddodd dim ond un gwasanaeth fod ganddynt swyddi gwag ond adroddodd tri o'r pum gwasanaeth ar ostyngiad yn nifer, neu lefel sgil staff o gymharu â'r llynedd. Adroddodd dau wasanaeth nad oeddent yn gallu recriwtio (er mai ond un a nododd swyddi gwag). Nododd tri gwasanaeth fod staff wedi gadael neu leihau eu horiau.

Sicrhau Ansawdd

Mae'n ofynnol i bob gwasanaeth yng Nghymru i gymryd rhan mewn rhaglen adolygiad gan gymheiriaid Cymru i sicrhau ansawdd. Adroddodd pob gwasanaeth archwiliad adrannol yn erbyn safonau ansawdd cenedlaethol, gan gyflawni gwiriadau cymhwysedd gymheiriaid a chasglu data boddhad cleifion, sy'n dangos tystiolaeth o arfer da.

Mae pob gwasanaeth a ymatebodd, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan mewn adolygiad gan gymheiriaid allanol o ganlyniadau ABR, sydd yn arfer a argymhellir i sicrhau ansawdd a diogelwch y prawf diagnostig ABR, sy'n hanfodol ar gyfer nodi byddardod mewn babanod a phlant.

Hygyrchedd

Er mwyn gwneud apwyntiadau a chysylltu â'r gwasanaeth, cynigodd pob un o'r gwasanaeth yr opsiwn o gyfathrebu trwy e-bost, testun a ffôn. Ond, nid oedd llawer o opsiynau eraill ar gael i deuluoedd sy'n ei chael yn anodd cysylltu â gwasanaethau drwy'r dulliau hyn. Dim ond dau wasanaeth a adroddodd eu bod yn cynnig BSL fel opsiwn cyfathrebu a'r amser ymateb cyfartalog oedd ddwywaith hynny o'r opsiynau eraill sydd ar gael. Ond, adroddodd pob gwasanaeth fod staff clinigol a gweinyddol yn derbyn diweddariadau rheolaidd am hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o fyddardod.

Cynigodd pob gwasanaeth yn oriau agor estynedig a chynigodd y rhan fwyaf o wasanaethau ddarpariaeth yn y gymuned ac apwyntiadau ffôn/fideo, sy'n dangos tystiolaeth o arfer da.

Cydweithio

Roedd y pum gwasanaeth a ymatebodd yn gallu atgyfeirio plant ar eu llwyth achosion i wasanaethau addysg arbenigol, therapi lleferydd ac iaith (SLT) ac i ENT ar gyfer barn feddygol. Adroddodd y pum gwasanaeth eu bod yn cyfeirio teuluoedd i'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar ar adeg y diagnosis

ac unrhyw bryd y bydd gan deulu broblem efallai y gallai'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar ei chefnogi.

Mae gwasanaethau awdioleg pediatrig yn ymgysylltu yn rheolaidd â gwasanaethau plant eraill, megis gwasanaethau addysg arbenigol lleol, therapi lleferydd ac iaith a phediatreg, ond gall meini prawf atgyfeirio amrywio.

Ymgysylltu â chleifion

Roedd tystiolaeth o arfer da wrth bontio i wasanaethau i oedolion. Mae pob gwasanaeth yn darparu gwybodaeth i bobl ifanc ac mae pedwar allan o'r pum gwasanaeth yn cwblhau proses pontio ffurfiol. Mae rhai gwasanaethau'n defnyddio dulliau mwy ymgysylltiol, fel apwyntiadau ar y cyd a'r cyfle i bobl ifanc ddod i'r clinig heb riant/gofalwr os yw hynny'n briodol. Ond nid yw'r arfer hwn yn gyffredinol ar draws pob safle.

Mae'r gyfradd gyfartalog o absenoldeb/plant nad ydynt yn cael eu cymryd i apwyntiadau awdioleg yng Nghymru ar gyfer cyfnod yr arolwg yn 14%, ond mae tystiolaeth bod gwasanaethau'n defnyddio strategaethau i geisio atal apwyntiadau a gollir. Rhoddodd cyfraddau absenoldeb fwy o bwysau ar wasanaethau sy'n ceisio ymdrin ag ôl-groniadau mewn amgylchiadau heriol a dylai gwasanaethau ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gwella cyfraddau presenoldeb.

Newidiadau yn y galw

Adroddodd gwasanaethau gynnydd yn y galw am y rhan fwyaf o fathau o apwyntiadau, gan gynnwys: cynnydd mewn cyfraddau atgyfeirio ar gyfer plant cyn-ysgol gydag oedi o ran iaith ac anghenion ychwanegol; cynnydd mewn atgyfeiriadau o sgrinio clyw ar gyfer mynediad i'r ysgol; plant y mae angen asesiad mwy cymhleth, sawl apwyntiad neu ABR o dan dawelydd neu anesthetig cyffredinol (AC) arnynt; ac ar gyfer anawsterau gwrando a sensitifrwydd sain gyda throthwyon clyw arferol.

Sylwodd gwasanaethau fod y sgrin clyw ar gyfer mynediad i'r ysgol wedi'i ailgyflwyno yn dilyn Covid-19 a bod meini prawf cyfeirio mwy llym ar waith bellach. Adroddodd gwasanaethau hefyd mae mwy o alw yn debygol o ddod yn sgil cynnydd posib mewn atgyfeiriadau o raglen NBHSW gan y rhagwelir newid tuag at fabwysiadu model ymateb clir dwyochrol.

Gofynnwyd i wasanaethau hefyd beth fyddai'n eu helpu i ymdopi â newidiadau yn y galw. Roedd yr ymatebion yn cynnwys cyflwyno mwy o gyfleusterau profi, darparu hyfforddiant arbenigol i staff a gweithredu llwybr asesu anghenion cymhleth.

Mynd i'r afael â'r materion a adroddwyd

Darparodd gwasanaethau enghreifftiau o arfer da i fodloni cynnydd yn y galw a myn i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd. Ond, mae gwasanaethau'n adrodd eu bod angen mwy o gapasiti o ran staffio a chyfleusterau sydd ar gael, yn ogystal â mwy o gyllid ar gyfer adnoddau gwasanaeth er mwyn gallu ymdopi â'r galw cynyddol ar y gwasanaethau ac i ymdrin â'r materion a adroddwyd. Disgrifir y rhain yn fanylach yn adran 10.

Cyllido a chomisiynu

Mae amrywioldeb ar draws Cymru o ran sut mae gwasanaethau awdioleg yn cael eu comisiynu a'u hariannu. Disgrifir y gwahaniaethau hyn yn fanylach yn adran 11.

Adran 2: Llwyth Achosion

Gofynasom i wasanaethau awdioleg plant am eu llwythi achosion o 30 Medi 2023 ymlaen.

Nifer y genedigaethau a gynhwysir gan y gwasanaeth bob blwyddyn

Gofynasom i wasanaethau sawl babi a anwyd yn yr ardal a oedd yn cael eu cynnwys gan eu gwasanaeth yn 2023, a darparodd pum gwasanaeth wybodaeth. Roedd hyn yn amrywio o 994 i 7,000, gan adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn poblogaethau ym mhob Bwrdd Iechyd.

Blwyddyn	Cyfradd ymateb	Ystod
2023	71% (5)	994 i 7000

Tabl 1: Nifer y genedigaethau bob blwyddyn

Cyfanswm nifer y genedigaethau a adroddwyd gan chwech o'r saith Bwrdd Iechyd oedd 20,241.

Ystod oedran

Gofynasom i wasanaethau nodi'r ystod oedran a gynhwysir yn eu gwasanaeth. Roedd pum gwasanaeth yn cynnwys 0 i 25 oed ac un yn dweud ei fod yn cynnwys 0 i 18 oed. Cynhwyswyd data o'r cyflwyniad hwyr yn y dadansoddiad hwn.

Cyfanswm nifer y plant â nam ar y clyw parhaol mewn plentyndod

Gofynasom i wasanaethau nodi cyfanswm nifer y plant â PCHI ar eu llwyth achosion. Nododd y pum Bwrdd Iechyd a ymatebodd i'r arolwg gyfanswm o **1,403 o blant â PCHI** ar eu llwyth achosion². Roedd amrywiad mawr rhwng gwasanaethau, yn amrywio o 28 i 471.

Blwyddyn	Cyfradd ymateb	Cyfanswm	Ystod
2023	71% (5)	1,403	28 i 471

Tabl 2: Nifer cyffredinol y plant â PCHI ar y llwyth achosion

Llwybrau atgyfeirio i blant sydd â PCHI i mewn i awdioleg

Gofynnwyd i wasanaethau awdioleg sut oedd plant gyda PCHI yn cael eu hatgyfeirio i'w gwasanaeth rhwng 1 Hydref 2022 a 30 Medi 2023.

Adroddodd pum gwasanaeth gyfanswm o 92 o blant a byddardod parhaol a oedd newydd gael eu hadnabod yn fyddar yn ystod y cyfnod cymhwyso ar gyfer yr arolwg hwn; adnabuwyd 23% (n=21; ystod 0 i 7) o'r rheini yn dilyn atgyfeiriad o raglen NBHSW. Adnabuwyd 77% (n=71; ystod 0 i 24) o blant gyda PCHI drwy wahanol lwybrau atgyfeirio, er enghraifft Meddyg Teulu neu sgrinio ysgol.

Mae polisi sgrinio clyw babanod yng Nghymru yn wahanol i un Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ei fwriad yw adnabod byddardod dwyochrog sylweddol, o lefel cymedrol neu uwch. Yng Nghymru, os caiff baban iach ymateb clir mewn un glust ond nid yn y glust arall, mae teuluoedd yn cael y cyfle i ddewis i gael dilyniant gan awdioleg. Gwneir atgyfeiriad ar gyfer asesiad diagnostig awdioleg yn awtomatig i bob Baban heb ymateb clir mewn dwy glust, a babanod risg uchel sydd ag ymateb clir dim ond yn yr un glust.

Mae'n bosib gall newid i sgrinio clyw babanod i bolisi dwy glust arwain at adnabyddiaeth gynharach o fyddardod mewn rhai plant sydd ar hyn o bryd yn cael eu hadnabod yn fyddar drwy wahanol lwybrau

² Eglurodd un gwasanaeth fod y nifer a ddarparwyd ganddynt yn ymwneud â phlant â chymhorthion clyw yn unig; nid oes ganddynt ddata ar gyfer y plant â PCHI nad ydynt yn cael cymorth. Ni chynhwyswyd data gan y cyflwyniad hwyr gan nad oeddent yn gallu gwahanu eu llwythi achosion PCHI a byddardod dros dro.

atgyfeirio. Croesawn y cyfle a ddaw yn sgil hwn i gynyddu nifer y plant sydd â PCHI sy'n cael eu hadnabod yn iau.

Nifer y plant â byddardod dros dro sydd â chymhorthion clyw

Gofynnwyd i'r gwasanaethau a ydynt yn cofnodi nifer y plant â byddardod dros dro sydd â chymhorthion clyw³, ac, os ydynt, faint o blant ar eu llwyth achosion sydd â byddardod dros dro sydd â chymhorthion clyw ar hyn o bryd.

Blwyddyn	Cyfradd ymateb	Cyfanswm	Ystod
2023	57% (4)	355	10 i 134

Tabl 3: Nifer y plant gyda byddardod dros dro sydd â chymhorthion clyw

Dyweddodd pedwar bwrdd wrthym nifer y plant â byddardod dros dro sydd â chymhorthion clyw. Adroddwyd cyfanswm o 355, ac roedd amrywioldeb sylweddol rhwng gwasanaethau, yn amrywio o 10 i 134.

Nifer y plant ag ANSD

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu cyfanswm nifer y plant ag ANSD ar eu llwyth achosion.

Roedd 35 o blant ag ANSD ar draws llwyth achosion y pum bwrdd, yn amrywio o 0 i 19; yn gyffredinol, roedd cyfran y plant ag ANSD allan o'r llwyth achosion PCHI cyfan yn 3%, gan amrywio o 0 i 4.

Amcangyfrif o gyfanswm llwyth achosion a dosbarthiad categorïau plant


Cafwyd amcangyfrif o ddosbarthiad plant â PCHI a byddardod dros dro (â chymorth) ar y llwyth achosion a adroddwyd drwy ychwanegu nifer y plant gyda'r ddau gategori o ddiagnosisau y gofynnwyd i wasanaethau amdanynt. Roeddem yn gallu gwneud hyn ar gyfer y pedwar bwrdd a ddarparodd ddata ar yr holl gwestiynau perthnasol yn unig. Cyfrifir am bron i dri chwarter (72%) o'r llwyth achosion gan PCHI (gweler Tabl 4 a Ffigur 1).

Blwyddyn 2023	Cyfradd ymateb	Cyfanswm	% Dosbarthiad	Ystod o %
Cyfanswm	57% (4)	1287	100%	-
PCHI	57% (4)	932	72%	51% i 77%
Byddardod dros dro â chymorth	57% (4)	355	28%	23% i 49%

Tabl 4: Nifer y plant â PCHI a byddardod dros dro â chymorth (yn seiliedig ar bedwar gwasanaeth)

Mae amrywioldeb uchel mewn llwyth achosion a dosbarthiadau rhwng gwasanaethau. Mae cafeatau pwysig yn y dull gweithredu hwn: adroddodd gwasanaethau amcangyfrifon, felly efallai nad oes gennym ddata cywir; gofnasom i wasanaethau am gategoriâu penodol yn unig, felly nid yw'r holl lwyth achosion wedi'i gyfrif, e.e., plant heb gymhorthion clyw sydd â byddardod dros dro; ac efallai bod anhwylderau'n gorgyffwrdd, e.e., ANSD.

³ Dynodwyd byddardod dros dro i gynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog y disgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed. Mae hefyd yn cynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog na ddigwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed, fel y rheini a anwyd gyda thafloedd hollt, Syndrom Down, ffibrosis systig, neu ddyscinesia blewynol cychwynnol. Dylai'r cwestiwn am blant gyda byddardod dros dro sydd efallai wedi derbyn cymhorthion clyw yn lle llawdriniaeth i osod gromed, neu tra maent yn aros am llawdriniaeth i osod gromed, gynnwys y rheini y disgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed.



Ffigur 1. Cyfran y plant â PCHI a byddardod dros dro â chymorth ar y llwyth achosion a adroddwyd (pedwar gwasanaeth)

Cyfrifir dros chwarter y llwyth achosion a adroddwyd gan blant sydd wedi cael cymorth ar gyfer byddardod dros dro.

Atgyfeiriadau at ENT

Gofynasom i wasanaethau roi nifer y plant a atgyfeiriwyd at ENT rhwng 1 Hydref 2022 a 30 Medi 2023. Roedd 343 o blant gyda chlust ludiog wedi'u hatgyfeirio at ENT yn y flwyddyn ddiwethaf, fel yr adroddwyd gan bedwar bwrdd, gyda'r amrywiad ar draws gwasanaethau yn amrywio o 22 i 108 (69 ar gyfartaledd).

Adran 3: Darpariaeth wasanaeth clinigol

Opsiynau asesu ar gyfer plant ag anghenion cymhleth

Gofynasom i wasanaethau am yr opsiynau asesu ar gyfer plant ag anghenion cymhleth neu'r rhai a oedd yn ei chael yn anodd cael canlyniad prawf diffiniol gan ddefnyddio dulliau ymddygiadol safonol. Darparodd pum gwasanaeth ymateb.

Blwyddyn	Clinigau penodol, er enghraifft, gydag amseroedd clinig hwy neu staff mwy profiadol	Defnydd stimwli heb eu calibradu (er enghraifft, cerddoriaeth heb ei chalibradu ond gyda hidlydd pasio band)	ABR o dan dawelydd	ABR o dan AC	Arall
2023	5	4	4	4	1

Tabl 5: Gwasanaethau a ddarperir ar gyfer asesu clyw plant cymhleth neu anodd eu profi, fel y nodwyd gan wasanaethau

Adroddodd pob un o'r gwasanaethau a ddarparodd ymateb i'r cwestiwn hwn (pump) eu bod yn cynnig clinigau penodol ar gyfer y grŵp hwn gyda mwy o amser clinig a/neu staff mwy profiadol. Roedd y dulliau eraill yn cael eu ffafrio gan bedwar gwasanaeth mewn gwahanol gyfuniadau. Nododd yr un gwasanaeth a ddewisodd "Arall" eu bod yn defnyddio profion ymateb cyflwr sefydlog clywedol (ASSR) ac allyriad otoacwstig (OAE). Er bod amrywioldeb yn y gwasanaethau a ddarperir, mae tystiolaeth o arfer da wrth ystyried opsiynau amgen i ddulliau ymddygiadol safonol.

Hefyd, gofynasom pa hyfforddiant a phrotocolau penodol sydd gan wasanaethau ar gyfer pob un o'r opsiynau asesu hynny. Canolbwyntiodd yr ymatebion ar argaeledd staff wedi'u hyfforddi a phrofiadol a chymysgedd sgiliau staff, gan ddilyn protocolau cenedlaethol a lleol, cael hyblygrwydd o ran amseru a gweithio ar y cyd ag adrannau eraill. Yn benodol, roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- **Protocolau ar gyfer clinigau penodol** – adroddodd gwasanaethau:
 - defnyddio staff hŷn mwy profiadol gyda hyfforddiant pediatreg lefel uwch; roedd enghreifftiau'n cynnwys aelodau staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant lefel meistr a hyfforddiant mewn anghenion cymhleth; a chlinigau wedi'u rhedeg gan ddau awdiolegydd Band 7
 - defnyddio staff ychwanegol, e.e. clinigau ar y cyd â phaediatregydd neu brif awdiolegydd
 - canllawiau a gweithdrefnau gweithredu safonol (SOPs) lleol
 - cynnig amseroedd apwyntiad hyblyg
 - un bwrdd heb brotocol na hyfforddiant penodol.
- **Defnyddio stimiwli heb eu calibradu:**
 - dywedodd un bwrdd fod eu protocolau ar hyn o bryd yn cael eu datblygu fel rhan o'u llwybr asesu anghenion cymhleth
 - dywedodd un eu bod yn defnyddio cerddoriaeth â hidlydd pasio band ac ystod o stimiwli heb eu calibradu i gyflyru plant cyn symud at stimiwli wedi'u calibradu
 - dywedodd un ymatebydd eu bod yn defnyddio stimiwli heb eu calibradu dim ond yn ôl y gofyn ac yn eu defnyddio ochr yn ochr â synau calibradu.
- **ABR o dan dawelydd:** mae pob bwrdd a oedd yn nodi eu bod yn cynnig ABR o dan dawelydd yn gofyn bod cwrs awdiometreg ymateb a ysgogwyd, pum niwrnod yn cael ei gyflawni. Ychwanegodd rhai byrddau fod y profion yn cael eu cyflawni yn unol â chanllawiau cenedlaethol a'u bod yn ymgysylltu ag adolygiadau o'r canlyniadau gan gymheiriaid.
- **ABR o dan AC:** ychwanegodd un bwrdd y byddant yn cyd-drefnu ABR os yw'r plentyn yn cael AC am reswm arall, ac rydym yn ymwybodol bod hyn yn arfer cyffredin ledled y DU.

Gwasanaethau ar gyfer colled clyw dargludol dros dro

Gofynasom i wasanaethau am yr opsiynau yn eu llwybr rheoli presennol ar gyfer colled clyw dargludol dros dro (gallai nifer o opsiynau gael eu dewis). Darparodd pob un o'r pum gwasanaeth a gymerodd ran yn yr arolwg ymateb.

Blwyddyn	Cymhorthion clyw dargludiad aer	Cymhorthion clyw dargludiad esgyrn	Gromedau	Otovent	Gwyllo ac aros	Arall
2023	5	5	5	5	5	3

Tabl 6: Cymorth sydd ar gael i blant â cholled clyw dargludol dros dro

Rhestrwyd yr holl opsiynau gan bob gwasanaeth, sy'n dystiolaeth o arfer da. Nododd un eu bod yn defnyddio cymhorthion clyw dargludiad esgyrn am resymau penodol yn unig fel heintiau clust rheolaidd neu anatomeg. Nododd tri gwasanaeth eu bod yn cynghori rhieni i brynu Otovent eu hunain yn hytrach na rhoi presgripsiwn iddynt.

Adroddodd dau wasanaeth eu bod yn cynnig cymhorthion clyw i blant sy'n aros am lawdriniaeth gromed.

Darparu cymhorthion clyw

Gofynasom i wasanaethau a ydynt yn darparu cymhorthion clyw ar gyfer y grwpiau canlynol o blant ac am y rhesymau os nad ydynt yn ei wneud.

Blwyddyn	Colled clyw dargludol dros dro	Colled clyw unochrog	Colled clyw mân	Colled clyw cymedrol	ANSD	Arall
2023	5	5	5	5	4	1

Tabl 7: Grwpiau sy'n derbyn technoleg clyw

Mae'r pum gwasanaeth yn cynnig cymhorthion clyw ar gyfer colled clyw dargludol dros dro, colled clyw unochrog, a cholled clyw mân a chymedrol; mae pedwar yn cynnig cymhorthion clyw ar gyfer ANSD; ac adroddodd un gwasanaeth yn yr opsiwn "Arall" eu bod yn cynnig cyfuniad o ddyfeisiau ar gyfer colled clyw a thinitws.

Gwasanaethau pediatrig anghyffredin/ychwanegol

Gofynasom i wasanaethau am wasanaethau pediatrig anghyffredin neu ychwanegol y maent yn eu cynnig ac, os nad ydynt yn eu cynnig, a ydynt yn cyfeirio plant i rywle arall am y gwasanaeth hwn. Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.

Blwyddyn 2023	Tynnu cwyr a wneir gan awdiolegwyr	Asesu/rheoli tinitws	Asesu/rheoli hyperacwsis	Gosod a chefnogaeth ar gyfer dyfeisiau y gellir eu mewnbllannu heblaw am fewnblaniadau yn y cochlear, e.e. cymhorthion clyw a angorir mewn asgwrn (BAHAs), mewnbllaniadau yn y glust ganol	Gwasanaeth festibwlar pediatrig	Asesu/rheoli anawsterau gwrando yn absenoldeb colled clyw ymylol (APD)	Arall
Cynnig	3	5	5	2	1	3	2
Atgyfeirio	2	0	0	3	4	2	0

Tabl 8: Nifer y gwasanaethau pediatrig ychwanegol a gynigir gan wasanaethau

Dywedodd pum gwasanaeth eu bod yn darparu gwasanaethau ar gyfer tinitws a hyperacwsis, tri ar gyfer tynnu cwyr, tri ar gyfer rheoli anawsterau gwrando yn absenoldeb colled clyw ymylol, dau ar gyfer dyfeisiau mewnbllanadwy ac un ar gyfer gwasanaethau festibwlar. Dywedodd pob gwasanaeth a adroddodd nad ydynt yn darparu gwasanaeth y byddent yn atgyfeirio at wasanaeth arall. Nododd un o'r ddau ymatebydd a ddewisodd "Arall" eu bod yn gwneud yr asesiad ar gyfer tinitws, hyperacwsis ac anawsterau gwrando ond yn cyfeirio at feddyg awdio-festibwlaidd neu baediatregydd ar gyfer rheoli. Nododd y llall fod ganddynt lwybrau gwahanol ar gyfer asesiad festibwlar pediatrig yn dibynnu ar oedran: byddant yn gweld plant dros 14 oed os oes angen prawf calorid; y rhieni dros 10 oed ar gyfer pob asesiad festibwlar arall; a bod plant iau yn cael eu cyfeirio at safle arbenigol.

Adran 4: Hygyrchedd

Hyblygrwydd ar gyfer apwyntiadau

Gofynasom i wasanaethau am opsiynau hyblyg ar gyfer apwyntiadau y maent yn eu cynnig ac, os nad ydynt yn eu cynnig, a hoffent eu cynnig a beth sy'n eu hatal rhag eu cynnig. Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.

Blwyddyn 2023	Apwyntiadau ychwanegol yn ystod gwyliu ysgol	Oriau agor estynedig (cyn 9am a/neu ar ôl 5pm)	Apwyntiadau dydd Sadwrn	Darparu rhai gwasanaethau mewn ysgolion	Darparu rhai gwasanaethau mewn lleoliadau cymunedol eraill	Apwyntiadau ffôn neu fideo	Arall
Cynnig	3	5	2	3	4	4	0
Am gynnig	1	0	1	0	1	0	1

Tabl 9: Nifer y gwasanaethau sy'n cynnig apwyntiadau hyblyg

Adroddodd o leiaf rhai gwasanaethau ar yr holl opsiynau. Roedd pob un o'r pum gwasanaeth yn defnyddio oriau agor estynedig. Yr opsiynau mwyaf cyffredin nesaf oedd darparu yn y gymuned ac apwyntiadau ffôn/fideo. Yr opsiwn lleiaf cyffredin (a adroddwyd gan ddau wasanaeth) oedd apwyntiadau dydd Sadwrn. Yn gyffredinol, adroddodd y gwasanaethau nad ydynt yn defnyddio rhai opsiynau hyblyg ar gyfer apwyntiadau eu bod yn dymuno gwneud hynny, ond nid oedd hyn yn wir gyda phob gwasanaeth nac opsiwn. Er enghraifft, ni fwriadodd un gwasanaeth nad oedd yn defnyddio apwyntiadau o bell i wneud hynny; eglurodd eu bod yn credu bod ychydig iawn o apwyntiadau yn gallu cael eu cyflawni o bell. Ymhlith y rhesymau dros beidio â chynnig opsiynau hyblyg oedd lefelau staffio, patrymau gwaith staff, cyfleusterau, a capasiti ystafelloedd (capasiti ystafelloedd ar y safle, cleifion allanol ar gau ar benwythnosau, a diffyg lleoedd cymunedol addas).

Opsiynau cyfathrebu

Gofynasom i wasanaethau am yr opsiynau cyfathrebu y maent yn eu cynnig er mwyn cysylltu â'u gwasanaeth.

Blwyddyn 2023	E-bost	Neges destun	Ffurflen we	System archebu / dyddiadur ar-lein	Ffôn	BSL	Arall
Nifer y gwasanaethau	5	5	1	0	5	2	2

Tabl 10: Nifer yr opsiynau cyfathrebu a gynigir gan wasanaethau

Mae pob un o'r pum gwasanaeth a ymatebodd yn defnyddio e-bost, neges destun, a ffôn; mae dau yn defnyddio BSL, ac mae un yn defnyddio ffurflen we. Nid yw system archebu/dyddiadur ar-lein yn cael ei defnyddio o gwbl. Nododd un o'r gwasanaethau a ddewisodd "Arall" eu bod yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg, ac eglurodd yr ail wasanaeth a ddewisodd "Arall" eu bod yn defnyddio archebion a holiadau wyneb yn wyneb.

Amser ymateb y gwasanaeth am bob opsiwn cyfathrebu

Gofynasom i wasanaethau am yr amseroedd ymateb (mewn diwrnodau) ar gyfer pob un o'r opsiynau cyfathrebu, gan gynnwys y targed a'r amseroedd gwirioneddol, a ph'un a oes unrhyw beth yn eu hatal rhag cyrraedd eu targed. Mae'r rhifau mewn cromfachau'n nodi nifer y gwasanaethau a ddarparodd yr wybodaeth hon.

Blwyddyn 2023	E-bost	Neges destun	Ffurflen we	System archebu / dyddiadur ar-lein	Ffôn	BSL	Arall
Targed: amser ymateb cyfartalog	1(5)	1(5)	1(1)	Amh(0)	1(4)	1(2)	Amh(2)
Gwirioneddol: amser ymateb cyfartalog	1.6(5)	1.6(5)	2(1)	Amh(0)	1.8(4)	3.5(2)	Amh(2)

Tabl 11: Amseroedd ymateb cyfartalog ar gyfer pob opsiwn cyfathrebu (nifer y gwasanaethau a ddarparodd data mewn cromfachau)

Adroddodd pob un o'r gwasanaethau a ddefnyddiodd yr opsiynau hyn mai un diwrnod oedd eu targed ymateb ar gyfer pob un. Roedd yr amser ymateb gwirioneddol gyfartalog yn amrywio o 1.6 diwrnod ar gyfer e-bost a neges destun (pum gwasanaeth yn defnyddio'r opsiynau hyn) i 3.5 ar gyfer BSL (dau wasanaeth yn defnyddio'r opsiwn hwn).

Adroddodd dau wasanaeth eu bod yn methu â chyrraedd eu targedau ymateb. Adroddodd un gwasanaeth am amser ymateb o dri diwrnod ar gyfer e-bost, neges destun, ffôn a BSL, ac un arall am ddau ddiwrnod ar gyfer e-bost, neges destun, ffurflen we a ffôn, a phedwar diwrnod ar gyfer BSL. Darparwyd rhesymau dros beidio â chyrraedd targedau ymateb gan un gwasanaeth yn unig, ac yr oeddent yn cynnwys galwadau clinigol a phrinder staff.

Hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod

Gofynnodd yr arolwg ba hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod y mae'r staff yn ei dderbyn. Mae'r rhifau mewn cromfachau'n nodi nifer y gwasanaethau a ddarparodd yr wybodaeth hon.

Blwyddyn 2023	Hyfforddiant untro	Diweddariadau rheolaidd
Hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod i Awdiolegwyr	0 (5)	5 (5)
Hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod i staff gweinyddol/Derbynfa	0 (5)	5 (5)

Tabl 12: Hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod

Adroddodd pob gwasanaeth fod staff clinigol a staff gweinyddol yn derbyn diweddariadau rheolaidd am hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod.

Adran 5: Amseroedd aros

Caiff amseroedd aros o atgyfeiriad gan sgrin clyw babanod yng Nghymru i ddiagnosteg awdioleg cyntaf eu monitro a'u cofnodi gan raglen NBHSW⁴. Mae'r adroddiad ystadegol diweddaraf, sy'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022, yn nodi bod 91.6% o fabanod a gafodd eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad awdioleg o NBHSW wedi cwblhau'r broses asesu o fewn tri mis, gan gwrdd â safon y gwasanaeth. Deallwn y dylai'r data am y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 fod ar gael cyn bo hir.

Ar gyfer yr arolwg hwn, gofynasom i wasanaethau adrodd ar eu hamseroedd aros **ar gyfartaledd** (mewn diwrnodau) o atgyfeiriad drwy lwybrau eraill i asesiad awdioleg cyntaf (er enghraifft Meddyg Teulu, sgrin ysgol neu ymwelydd ieched) yn ystod y cyfnod 1 Hydref 2022 i 30 Medi 2023.

Atgyfeiriadau brys newydd ar gyfer asesiad clyw diagnostig (y tu allan i lwybr NBHSW)

Targed amser aros am atgyfeiriadau brys newydd ar gyfer babanod a phlant hŷn yng Nghymru yw is 28 diwrnod⁵. Darparodd pum gwasanaeth wybodaeth a chofnododd pob un ond un amseroedd aros cyfartalog ar neu o dan 28 diwrnod; roedd yr amseroedd aros yn amrywio o 16 i 34 diwrnod.

Atgyfeiriadau cyffredin newydd ar gyfer yr asesiad cyntaf (y tu allan i lwybr NBHSW)

Targed amser aros ar gyfer atgyfeiriadau cyffredin i asesiad clyw cyntaf ar gyfer babanod a phlant hŷn wedi'u hatgyferio drwy lwybrau y tu allan i lwybr NBHSW yw 42 diwrnod. Roedd y cyfnodau aros ar gyfartaledd a adroddwyd gan y pedwar gwasanaeth a ddarparodd data ar yr amseroedd aros hyn i gyd yn sylweddol uwch na'r targed, gan amrywio o 126 i 290 diwrnod.⁶

Penderfyniad i osod cymhorthion clyw i amser gosod ar gyfer PCHI

Yng Nghymru, disgwylir y bydd pob atgyfeiriad ar gyfer cymhorthion clyw yn cael eu cynnig apwyntiad i'w gosod o fewn pedair wythnos (28 diwrnod) o'r penderfyniad i osod cymorth, ac eithrio colledion clyw dargludol mân, unochrog a dros dro, lle gellir cynnig apwyntiadau o fewn chwe wythnos (42 diwrnod) o'r penderfyniad i osod cymorth⁷.

Blwyddyn	Cyfradd ymateb	Amser aros cyfartalog uchaf (diwrnodau)	Amser aros cyfartalog cymedrig (diwrnodau)
2023	71% (5)	28	26

Tabl 13: Amseroedd aros (mewn diwrnodau) o'r penderfyniad i osod cymhorthion clyw i'r amser gosod ar gyfer PCHI

Ar ôl gwneud penderfyniad i osod cymorth, dywedodd pob gwasanaeth a ymatebodd wrthym eu bod yn gosod cymhorthion clyw o fewn 28 diwrnod (cyfartaledd 26 diwrnod), sy'n tynnu sylw at arfer da wrth reoli plant byddar.

⁴ Adroddiadau ystadegol blynyddol - Iechyd Cyhoeddus Cymru. <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-clyw-babanod-cymru/adroddiadau-rhaglen/adroddiadau-ystadegol-blynyddol/> (Cyrchwyd 26 Chwefror 2025)

⁵ GIG Cymru/NHS Wales. Cylchlythyr Iechyd Tachwedd 2016). https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/safonau-ansawdd-ar-gyfer-gwasanaethau-clyw-plant-2016_0.pdf (Cyrchwyd 22 Medi 2024).

⁶ Mae'r targed ar gyfer uchafswm y cyfnodau aros ac nid amseroedd aros cyfartalog, felly efallai na fydd gwasanaeth gydag amser aros o 150 diwrnod ar gyfartaledd wedi methu'r targed am bob plentyn o fewn y gwasanaeth hwnnw

⁷ GIG Cymru/NHS Wales. *Quality Standards for Children's Hearing Services: The Assessment and Audit Tool*. gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/quality-standards-for-childrens-hearing-services-the-assessment-and-audit-tool.pdf (cyrchwyd 22 Medi 2024).

Adolygiad cymhorthion clyw cyffredin

Gofynnwyd i wasanaethau am amseroedd aros ar gyfer adolygiad rheolaidd o gymhorthion clyw, a esboniwyd fel aros y tu hwnt i'r dyddiad a ddisgwylir/y cytunwyd arno, h.y., byddai plentyn a welir ar gyfer eu dilyniant tair mis o fewn tair mis yn sero diwrnod, byddai plentyn a welir ar ôl pedwar mis ar gyfer dilyniant tair mis yn 30 diwrnod calendr.

Blwyddyn	Cyfradd ymateb	Amser aros cyfartalog uchaf (diwrnodau)	Amser aros cyfartalog isaf (diwrnodau)
2023	71% (5)	189	5

Tabl 14: Amseroedd amser (mewn diwrnodau) ar gyfer adolygiad rheolaidd o gymhorthion clyw

Adroddodd pob un ond un (pedwar allan o bump) o wasanaethau eu bod yn ei chael yn anodd adolygu plant sydd eisoes wedi cael cymhorthion clyw ar yr amser a drefnwyd ac y cytunwyd arno gyda'r teulu, gydag amrywioldeb sylweddol yn yr oedi, gan amrywio o bum diwrnod i 189 diwrnod dros y dyddiad adolygu a gynlluniwyd.

Mowldiau clust newydd (diwrnodau gwaith o'r adeg y hysbyswyd am yr angen)

Dylai apwyntiadau ar gyfer mowldiau clust newydd fod o fewn dau ddiwrnod gwaith o'r cais yng Nghymru.

Blwyddyn	Cyfradd ymateb	Amser aros cyfartalog uchaf (diwrnodau)	Amser aros cyfartalog cymedrig (diwrnodau)
2023	71% (5)	3	2

Tabl 15: Amseroedd aros (mewn diwrnodau) ar gyfer mowldiau clust newydd

Cynigiwyd apwyntiadau ar gyfer mowldiau clust newydd o fewn dau ddiwrnod gan dri o'r pum gwasanaeth (dau ddiwrnod ar gyfartaledd).

Atgyweirio cymhorthion clyw (diwrnodau gwaith o'r adeg y hysbyswyd am yr angen)

Dylai apwyntiadau ar gyfer atgyweirio cymhorthion clyw fod o fewn dau ddiwrnod gwaith o'r cais yng Nghymru.

Blwyddyn	Cyfradd ymateb	Amser aros cyfartalog uchaf (diwrnodau)	Amser aros cyfartalog cymedrig (diwrnodau)
2023	71% (5)	3	2

Tabl 16: Amseroedd aros (mewn diwrnodau) ar gyfer atgyweirio cymhorthion clyw

Cynigiwyd atgyweiriadau cymhorthion clyw o fewn dau ddiwrnod gan bedwar o'r pum gwasanaeth (dau ddiwrnod ar gyfartaledd).

Profion clyw dilynol cyffredin ar gyfer plant heb gymhorthion

Gofynnwyd i wasanaethau am amseroedd aros ar gyfer profion clyw dilynol rheolaidd ar gyfer plant **heb** gymhorthion (gan gynnwys gwyllo ac aros ar gyfer clust ludiog a'r rheini sydd angen adolygiad rheolaidd arnynt). Esboniwyd hyn fel aros y tu hwnt i'r dyddiad a ddisgwylir/y cytunwyd arno, h.y., byddai plentyn a

welir ar gyfer eu dilyniant tair mis o fewn tair mis yn sero diwrnod, byddai plentyn a welir ar ôl pedwar mis ar gyfer dilyniant tair mis yn 30 diwrnod calendr.

Blwyddyn	Cyfradd ymateb	Amser aros cyfartalog uchaf (diwrnodau)	Amser aros cyfartalog isaf (diwrnodau)
2023	57% (4)	147	10

Tabl 17: Amseroedd aros (mewn diwrnodau) ar gyfer profion clyw arferol ar gyfer plant heb gymhorthion

Rhoddodd pedwar gwasanaeth ymateb i'r cwestiwn. Adroddodd pob un fod apwyntiadau dilynol rheolaidd wedi'u gohirio ar gyfer plant nad oeddent yn defnyddio cymhorthion clyw ond yr oedd angen arnynt fonitro a/neu asesiad pellach. Roedd amrywioldeb sylweddol, gan amrywio o 10 i 147 diwrnod dros y dyddiad adolygu a gynlluniwyd.

Atgyfeiriadau at ENT

Gofynasom i wasanaethau am amseroedd aros ar gyfer atgyfeiriadau o'u gwasanaeth i gael apwyntiad cychwynnol gydag ENT. Yng Nghymru, targed ar gyfer apwyntiad cychwynnol gydag ENT yn dilyn atgyfeiriad yw wyth wythnos (56 diwrnod)⁸. Rydym yn gwerthfawrogi bod amseroedd aros ENT y tu allan i gylch gwaith gwasanaethau awdioleg.

Blwyddyn	Cyfradd ymateb	Amser aros cyfartalog uchaf (diwrnodau)	Amser aros cyfartalog isaf (diwrnodau)
2023	60%(3)	193	84

Tabl 18: Amseroedd aros (mewn diwrnodau) ar gyfer atgyfeiriadau at ENT

Adroddodd tri gwasanaeth eu hamseroedd atgyfeirio i wasanaethau ENT; methodd pob un â chyrraedd y targed apwyntiad cychwynnol o 56 diwrnod, gyda'r amser aros cyfartalog yn amrywio o 84 i 193 diwrnod⁹.

Llawdriniaeth gromed ar gyfer clust ludiog

Gofynasom i wasanaethau am amseroedd aros ar gyfer llawdriniaeth gromed ar gyfer clust ludiog. Yng Nghymru, dylai 95% o gleifion ddechrau triniaeth o fewn 26 wythnos (182 diwrnod) o atgyfeiriad ond dylai 100% ddechrau o fewn 36 wythnos (252 diwrnod)¹⁰.

Blwyddyn	Cyfradd ymateb	Amser aros cyfartalog uchaf (diwrnodau)	Amser aros cyfartalog isaf (diwrnodau)
2023	60%(3)	365	365

Tabl 19: Amseroedd aros (mewn diwrnodau) ar gyfer llawdriniaeth gromed ar gyfer clust ludiog

Adroddodd pob un o'r tri gwasanaeth a ymatebodd i'r cwestiwn am amseroedd aros ar gyfer llawdriniaeth gromed 365 diwrnod, sy'n dangos nad yw'r targedau 26 nac 36 wythnos yn cael eu cyrraedd.


⁸ GIG Cymru/NHS Wales. *Quality Standards for Children's Hearing Services: The Assessment and Audit Tool*. gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/quality-standards-for-childrens-hearing-services-the-assessment-and-audit-tool.pdf (cyrchwyd 22 Medi 2024).
⁹ Rhoddodd un gwasanaeth ystod rhwng 10 a 365 diwrnod felly defnyddiwyd y cymedr wrth gyfrifo'r amseroedd aros cyfartalog.
¹⁰ GIG Cymru/NHS Wales. *Quality Standards for Children's Hearing Services: The Assessment and Audit Tool*. gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/quality-standards-for-childrens-hearing-services-the-assessment-and-audit-tool.pdf (cyrchwyd 22 Medi 2024).

Adran 6: Gwella a sicrhau ansawdd

Gofynnodd yr arolwg am ba ddulliau y mae gwasanaethau'n eu defnyddio ar gyfer gwella a sicrhau ansawdd. Mae safonau ansawdd awdioleg pediatriig cenedlaethol yn bodoli yng Nghymru.

Dulliau gwella a sicrhau ansawdd

Roedd y dulliau mwyaf poblogaidd i gyd yn ffurfiau mewnol o sicrhau ansawdd, gyda phob un o'r pum gwasanaeth yn adrodd ar gymryd rhan mewn archwiliadau yn erbyn safonau ansawdd cenedlaethol a chanllawiau lleol; gwiriadau cymhwysedd cymheiriaid a grwpiau ffocws/arolygon cleifion/defnyddwyr gwasanaethau (Ffigur 2).



Ffigur 2. Dulliau gwella a sicrhau ansawdd a ddefnyddir gan wasanaethau

Y mwyaf poblogaidd ond un oedd cymryd rhan yn rhaglen adolygu gan gymheiriaid Genedlaethol Cymru, adolygiad gan gymheiriaid mewnol (profi ymddygiadol), adolygiad gan gymheiriaid mewnol (gosod cymhorthion clyw) a chymryd rhan yn weithredol mewn adolygiad gan gymheiriaid rhanbarthol allanol ar gyfer ABR. Ni nododd unrhyw wasanaeth eu bod yn defnyddio adolygiad gan gymheiriaid allanol y tu allan i ABR.

Yn ogystal â hyn, adroddodd rhai gwasanaethau:

- adolygiad gan gymheiriaid mewnol (ABR)
- astudiaethau achos/clybiau dyddlyfrau
- rhwydweithiau cenedlaethol/rhanbarthol i rannu arfer gorau
- cyfarfodydd tîm clinigol wythnosol a misol a chyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol.

Dylid pob gwasanaeth Awdioleg Pediatriig ymgymryd ag archwiliadau sicrhau ansawdd allanol bob dwy flynedd, yn unol â mandad Llywodraeth Cymru. Rhennir canlyniadau'r rhain gyda phob Bwrdd Iechyd unigol, a chyhoeddir adroddiad cryno Cymru gyfan gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cymru yw'r unig wlad o fewn y DU sydd wedi ymgorffori sicrhau ansawdd o fewn awdioleg pediatriig.

Roedd y gwasanaethau a adroddodd eu bod yn cyfranogi'n weithredol yn adolygiad gan gymheiriaid allanol ABR hefyd yn adrodd eu bod yn cyflwyno olion rheolaidd ar bob colled clyw a sampl o achosion o ryddhad. Adroddwyd bod 14 o brofwyr ABR ar draws y pedwar gwasanaeth a ymatebodd i'r cwestiwn, gan amrywio

o ddau i bump fesul gwasanaeth, ac adroddwyd bod pob un ohonynt yn cyfranogi yn adolygiad gan gymheiriaid; nid yw'r un gwasanaeth nad oedd yn adrodd ar gyfranogi yn adolygiad gan gymheiriaid allanol ABR yn cynnig gwasanaeth ABR.

Pan ofynnwyd am sut maent yn gweithredu ar ganfyddiadau adolygiad allanol ABR, nododd gwasanaethau y canlynol:

- trafodwyd canfyddiadau mewn cyfarfodydd gwasanaeth a chyfarfod awdiolegwy; proses “Gwersi a Ddysgwyr” ar waith
- camau gweithredu sy’n ymwneud â’r claf; os caiff ei ddangos yn glinigol, rhoddir apwyntiad arall i’r claf ar gyfer profi pellach neu caiff rhaglen rheoli ei newid a dywedir wrth y rhieni
- camau gweithredu proffesiynol: clinigwr i fyfyrwr ar ymarfer; bydd unrhyw amrywiad o’r canllawiau yn cael ei adrodd i gydlynnydd rhanbarthol ar gyfer y rhaglen NBHSW a’r awdiolegydd dan sylw.

Adran 7: Staffio a hyfforddiant


Gofynnwyd am staff sy’n gweithio mewn gwasanaethau awdioleg pediatriig o 30 Medi 2023 ymlaen. Gofynnwyd i wasanaethau i adrodd ar lefelau staffio clinigol (gan gynnwys graddau AfC staff), swyddi gwag, unrhyw leihad a welwyd mewn sgiliau, rhesymau dros y lleihad hwnnw a’r camau a gymerwyd i fynd i’r afael â heriau o’r fath. Gofynnwyd am niferoedd staff wedi’u mynegi fel ffraciwn o wythnos waith lawn. Felly, byddai un rôl amser llawn a rôl ran-amser o dri diwrnod mewn wythnos bum diwrnod yn gyfystyr â 1.6 cyfwerth ag amser llawn (CALI).

Nifer y staff parhaol

Cyfanswm y swyddi CALI a adroddwyd gan wasanaethau oedd 31.6.

Nifer y staff clinigol ar bob lefel AfC

Dengys y graff sy’n dilyn nifer y staff ar bob band AfC sy’n gweithio yn y pum gwasanaeth awdioleg pediatriig a ymatebodd i arolwg 2023.



Ffigur 3: Nifer (CALI) y staff clinigol sy’n gweithio mewn awdioleg pediatriig, yn ôl band AfC

Mae’r rifau mewn cromfachau o dan bob band yn Ffigur 3 yn dangos nifer y gwasanaethau a roddodd ateb.

Roedd y rhan fwyaf o staff awdioleg pediatrig wedi'u cyflogi fel Band 7 AfC, yna Band 8 AfC ac yna Band 6 AfC. Fel arfer, bydd staff ar fand is yn cynorthwyo staff mwy profiadol gyda gwaith clinigol ac fel arfer ni fyddai disgwyl iddynt arwain clinigau, ond adroddodd un gwasanaeth fod staff Band 5 AfC yn gallu arwain clinigau pediatrig arferol ar gyfer plant ysgol.

Swyddi gwag


Blwyddyn	Nifer y staff ar draws gwasanaethau	Nifer y gwasanaethau
2023	1.2	1

Tabl 20: Nifer y swyddi gwag

Dim ond un gwasanaeth a adroddodd am swyddi gwag ar gyfer Band 7 (0.8 CALI) a meddyg (0.4 CALI). Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion i'r cwestiwn hwn gan y gwasanaethau eraill.

Lleihad yn nifer neu lefel sgiliau staff o'i gymharu â'r llynedd

Adroddodd tri gwasanaeth ar leihad ar leihad yn nifer staff/lefel sgiliau dros y flwyddyn ddiwethaf.



Ffigur 4. Rhesymau dros leihad yn nifer neu lefel sgiliau staff o'i gymharu â'r llynedd

Nododd dau wasanaeth fethu recriwtio fel y rheswm; nododd tri staff yn gadael neu'n lleihau'u horiau (gydag un yn nodi ymddeoliad); ac un gwasanaeth yn nodi absenoldeb mamolaeth/salwch. Nododd sylwadau eraill heriau ehangach, fel oedi recriwtio cyffredinol ar lefel bwrdd iechyd, cyllid Covid-19, ailstrwythuro a newidiadau i'r dalgylch.

Roedd y camau gweithredu a nodwyd yn cynnwys staff yn gweithio oriau ychwanegol, monitro risg gweithredol, monitro galw a chynlluniau i hyfforddi ar gyfer Band 5 (prinder cenedlaethol) trwy lwybr gradd ran-amser.

Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Gofynasom gwestiynau i wasanaethau ynghylch DPP yn eu timau:

- DPP sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni anghenion datblygu ac aros yn gymwys:
 - Adroddodd tri gwasanaeth eu bod yn dilyn gofynion DPP a osodwyd gan y cyrff proffesiynol sy'n rheoleiddio staff, e.e. y Cyngor Cofrestru ar gyfer Ffisiolegwyr Clinigol, yr Academi Gwyddor Gofal Iechyd a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.
 - Adroddodd un gwasanaeth ofynion DPP blynyddol mewnol.
 - Adroddodd un gwasanaeth eu bod yn darparu hyfforddiant penodol ar gyfer clinigau yn ôl yr angen, e.e. ABR, Awdiometreg Atgyfnerthu Weledol (VRA) a hyfforddiant cymhorthion clyw pediatrig
- DPP y cafodd staff fynediad ato. Soniodd pedwar gwasanaeth am y gweithgareddau canlynol:
 - hyfforddiant allanol, e.e. cwrs ABR Harrogate, arholiad/hyfforddiant adolygu gan gymheiriaid ABR i ddod yn adolygydd cymheiriaid, hyfforddiant cynorthwydd VRA, Cynllun Hyfforddi Uwch (HTS), Chwyddo Sain Effeithiol mewn Babanod a Phlant a hyfforddiant allanol "rhannu'r newyddion".
 - cynadleddau (Cynhadledd Tinitws y DU, cyfarfod Gwyddonol Cymdeithas Awdioleg Prydain (BSA))
 - hyfforddiant mewnol, e.e. hyfforddiant mewnol ar gyfer "rhannu'r newyddion" a diwrnod cwrdd i ffwrdd ar gyfer holl staff pediatrig.
 - diwrnodau archwilio/llywodraethu a chyfarfodydd datblygu pediatrig bob yn ail fis i drafod datblygiadau gwasanaeth
 - adolygiad clinigol.
- DPP sy'n brin neu'n anodd ei gael: Soniodd pedwar gwasanaeth am:
 - hyfforddiant i arwain clinigau gyda dau brofwr, yn benodol profion VRA, profi AEP (ar wahân i ABR), e.e. CERA, ASSR, mynediad at STP ac HTS (nid safle achrededig, felly mae angen i staff ymddiswyddo oherwydd na ellir cadw'r swydd yn agored), hyfforddiant clyw ac anhwylder prosesu clyw.
- Anghenion DPP nad oes darpariaeth ar eu cyfer. Adroddodd un gwasanaeth:
 - cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd – addasiadau profi ac adfer.
- Rhwystrau rhag cael mynediad at DPP. Soniodd tri gwasanaeth am:
 - cost, cyllid, y teithio/dim darpariaeth leol, yr amser i astudio sy'n ofynnol a methu â rhyddhau staff oherwydd y galw uchel ar y gwasanaeth.

Dyfynnodd un gwasanaeth eithriad Adran 12 ac ni ddarparodd ymateb i'r adran hon am DPP o gwbl.

Cyfuniad sgiliau a rolau

Gofynasom i wasanaethau i nodi pa rolau y gall y gwahanol aelodau o'r tîm eu cael ar bob gradd mewn pediatreg. Gallai'r ymatebwyr ddewis pob ateb sy'n berthnasol.

Band AFC	Arwain asesiad diagnostig babanod a/neu ddilyniant diaros	Arwain asesiadau rheolaidd	Cynorthwyo asesiadau rheolaidd	Arwain asesiadau rheolaidd	Darparu profi rheolaidd ar gyfer clinigau ENT yn unig (e.e. heb gymryd unrhyw hanes)	Arwain asesiad o blant ag anghenion cymhleth	Cynorthwyo asesiad o blant ag anghenion cymhleth	Arwain clinigau cymhorthion clyw cyn-ysgol/ anghenion cymhleth	Arwain clinigau cymhorthion clyw plant oedran ysgol	Arwain clinigau ychwanegol /uwch e.e. ar gyfer tinitws, hyperacwsis neu anhwylder prosesu clyw
		<4 oed	<4 oed	oedran ysgol						
2	0	0	1	0	0	0	1	0	0	0
3	0	0	2	0	0	0	1	0	0	0
4	0	0	3	0	0	0	2	0	0	0
5	0	0	2	1	4	0	1	0	0	0
6	0	2	3	4	5	1	4	1	4	0
7	3	5	4	5	3	4	4	4	5	2
8a	4	4	3	4	3	4	4	4	4	3
8b	2	2	1	2	1	2	2	2	2	1
8c	2	3	2	3	2	2	3	2	2	3
8d	2	2	1	2	1	2	2	2	2	2
9	2	2	1	2	1	2	2	2	2	2
Meddyg	0	1	1	1	1	1	1	0	0	0


Tabl 21: Rolau a gyflawnir gan staff ar wahanol lefelau (adroddwyd niferoedd yn ôl rôl a gradd)

Adran 8: Cydweithio

Atgyfeiriadau at wasanaethau addysg arbenigol lleol

Gofynasom i wasanaethau am atgyfeiriadau i'r gwasanaeth addysg arbenigol lleol ar gyfer plant byddar yn eu hardal (gallai gwasanaethau ddewis mwy nag un opsiwn). Gofynasom a oeddent yn gallu atgyfeirio plant â chymorth (a oedd yn defnyddio cymhorthion clyw) a heb gymorth ar wahân. Ar gyfer pob grŵp, gofynasom am blant gyda cholled clyw difrifol/llwyr, colled clyw synwyrnerfol mân neu gymedrol, colled clyw dargludol hirdymor neu barhaol, colled clyw dargludol dros dro/amrywiol, colled clyw unochrog ac ANSD, gan hefyd ddarparu opsiwn "Arall". Cydnabyddwn fod meini prawf atgyfeirio addysg y tu allan i gylch gorchwyl gwasanaethau awdioleg.

Mae ffigur 5 yn cyflwyno nifer y plant ym mhob grŵp (gyda a heb gymhorthion clyw) ar draws categorïau ac yn cymharu'r ddau grŵp o blant.




Ffigur 5. Grwpiau o blant gyda a heb gymorth y mae gwasanaethau clyw yn eu hatgyfeirio

Mae plant gyda chymorth sydd â cholled clyw o unrhyw fath yn cael eu cyfeirio at wasanaethau addysg arbenigol lleol gan bob adran awdioleg, ac eithrio plant gyda chymorth sydd ag ANSD, sy'n cael eu cyfeirio gan bedwar o'r pum gwasanaeth a ymatebodd. Nododd dau wasanaeth hefyd APD, yn yr ymateb "Arall", gydag un yn nodi eu bod yn gwneud hynny os yw plant yn cael trafferthion yn yr ysgol, i roi cynnig ar ddyfeisiau gwrando cynorthwyol.

Nid yw plant â cholled clyw nad ydynt yn defnyddio cymhorthion clyw yn cael eu cyfeirio at wasanaethau addysg arbenigol lleol gan bob gwasanaeth awdioleg. Yn benodol, nid yw plant â cholled clyw dros dro neu amrywiol yn cael eu cyfeirio at wasanaethau addysg gan unrhyw adran awdioleg a ymatebodd, a dim ond dau wasanaeth a adroddodd eu bod yn cyfeirio plant â cholled clyw synwyrnerfol mân a cholled clyw dargludol hirdymor neu barhaol. Dewisodd un gwasanaeth "Arall" ac yn esbonio eu bod yn cyfeirio pob plentyn pan fyddant yn adrodd anawsterau gwrando, ond ar gyfer plant â cholled clyw dargludol dros dro/amrywiol, ni fyddent yn gwneud hynny oni bai bod pryderon penodol.

Atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol allanol neu nad ydynt yn awdiolegwyr

Gofynasom a yw gwasanaethau'n gallu atgyfeirio'n rheolaidd yn uniongyrchol at weithwyr proffesiynol allanol neu nad ydynt yn awdiolegwyr, megis SLT, ENT, cymorth i deuluoedd /adrannau gwaith cymdeithasol, amddiffyn plant, seicoleg glinigol / CAMHS, CAMHS Byddar, pediatregydd/gwasanaeth asesu datblygiadol, y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar neu sefydliadau cymunedol/trydydd sector eraill.



Ffigur 6. Atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol allanol/nad ydynt yn awdiolegwyr

Dywedodd pob gwasanaeth wrthym eu bod yn gallu cyfeirio at ENT ac SLT, gall pedwar gwasanaeth gyfeirio at ddiogelu ac at baediatregydd, gall tri gwasanaeth gyfeirio at y trydydd sector, gall dau wasanaeth gyfeirio at seicoleg glinigol/CAMHS a gall un gwasanaeth gyfeirio at CAMHS Byddar. Ni adroddodd unrhyw wasanaeth eu bod yn gallu cyfeirio at gymorth i deuluoedd/gwasanaethau cymdeithasol.


Gofynnwyd i wasanaethau ba blant y maent yn eu hatgyfeirio. Roedd eu hymatebion fel a ganlyn:

- **Atgyfeiriadau SLT:**
 - mae dau wasanaeth yn cyfeirio pob plentyn cyn-ysgol â PCHI at SLT
 - mae tri gwasanaeth yn cyfeirio at SLT os asesir bod oedi yn lleferydd ac iaith y plentyn neu fod angen therapi arnynt.
- **Atgyfeiriadau at ENT:**
 - Adroddodd pob gwasanaeth fod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn ôl meini prawf clinigol.
- **Atgyfeiriadau diogelu:**
 - Adroddodd pob un o'r pedwar gwasanaeth sy'n cyfeirio at ddiogelu eu bod yn gwneud hynny pan fydd pryderon diogelu.
- **Atgyfeiriadau pediatregydd/asesiad datblygiadol:**
 - Mae tri o'r pedwar gwasanaeth sy'n cyfeirio at baediatregydd yn gwneud hynny pan fydd hyn yn cael ei asesu i fod yn glinigol briodol ac yn cyfeirio trwy'r arweinydd meddygol.
- **Atgyfeiriadau sefydliadau cymunedol/trydydd sector eraill:**
 - Ni ddarparodd unrhyw wasanaeth esboniad.
- **Atgyfeiriad seicoleg glinigol/CAMHS:**
 - Mae'r ddau wasanaeth sy'n cyfeirio at CAMHS yn gwneud hynny trwy gysylltiad â'r arweinydd meddygol os oes angen neu drwy ymwelydd iechyd/nyrs ysgol.
 - Esboniodd un gwasanaeth nad ydynt yn gallu cyfeirio plant yn uniongyrchol at dimau iechyd meddwl, gan ei fod yn ofynnol bod pob atgyfeiriad yn dod oddi wrth feddyg teulu'r plentyn.
- **CAMHS Byddar:**
 - Mae'r un gwasanaeth sy'n cyfeirio at CAMHS Byddar yn gwneud hynny drwy gysylltiad â'r arweinydd meddygol / CAMHS lleol.
 - Ychwanegodd gwasanaeth arall, nad oedd wedi adrodd y gallu i gyfeirio'n uniongyrchol, eu bod yn ansicr am eu hateb.
- **Cymorth i Deuluoedd/ Tîm Cymorth Amlasiantaeth/Gwasanaethau cymdeithasol:**
 - Esboniodd un gwasanaeth nad ydynt yn gallu cyfeirio'n uniongyrchol, ond gallant ofyn trwy Feddygaeth Awdiofestibwlaidd (AVM).

Ni nododd unrhyw wasanaeth at ba sefydliadau cymunedol/trydydd sector eraill y maent yn atgyfeirio atynt, nac ar gyfer pa blant y maent yn gwneud hyn.

Cyfeirio at y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar

Gofynasom i wasanaethau am y categorïau o blant â cholled clyw a'u teuluoedd y maent yn cyfeirio'n rheolaidd at y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar. Gofynasom hefyd i nodi a ydynt yn atgyfeirio at y sefydliad neu'n darparu gwybodaeth i bobl amdano.



Ffigur 7. Cyfeirio at y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar

Adroddodd tri gwasanaeth eu bod yn cyfeirio pob categori o blant at y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar; adroddodd un nad ydynt yn gwneud hynny ar gyfer ANSD; ac un nad ydynt yn gwneud hynny ar gyfer colled clyw dargludol dros dro a cholled clyw heb gymorth.

Roedd y darlun yn debyg mewn perthynas â darparu gwybodaeth yn rheolaidd am y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, ac eithrio un gwasanaeth nad yw'n darparu gwybodaeth am y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar ar gyfer colled clyw dargludol (parhaol neu dros dro), unochrog neu heb gymorth.

Adroddodd pob un o'r pum gwasanaeth eu bod yn cyfeirio teuluoedd at y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar ar adeg diagnosis a phryd bynnag y mae gan deulu broblem lle efallai y gallai'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar gynnig cymorth iddynt.

Gweithgorau Gwasanaethau Clyw Plant (CHSWG)

Gofynasom i wasanaethau a oes ganddynt CHSWG yn eu hardal. Adroddodd pob un o'r pum gwasanaeth fod un yn eu hardal. Gofynasom hefyd am gynrychiolaeth yn eu grŵp:

- Roedd gan y pum gynrychiolydd awdioleg pediatrig, SLT a gwasanaeth addysg arbenigol.
- Roedd gan dri chynrychiolydd rhiant.
- Roedd gan ddau gynrychiolydd NBHSW a chynrychiolydd tîm rheoli uwch/rheolwr Bwrdd Iechyd.
- Roedd gan dri chynrychiolydd gwasanaeth awdioleg oedolion/tîm pontio.
- Nid oedd gan unrhyw wasanaeth gynrychiolaeth gan berson ifanc byddar.

- Ychwanegodd un gwasanaeth hefyd fod ganddynt athro pobl sydd â nam amlsynhwyrdd, arweinydd meddygol, cynrychiolydd awdioleg pediatrig a chynrychiolydd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar.

Adran 9: Ymgysylltu â chleifion

Roedd y cwestiynau hyn yn ymwneud â sut roedd gwasanaethau'n ymdrechu i ymgysylltu'n gadarnhaol â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Pontio i wasanaethau i oedolion


Gofynnwyd i wasanaethau sut maent yn paratoi pobl ifanc ar gyfer pontio i wasanaethau i oedolion. Cynigiwyd naw opsiwn iddynt, gan gynnwys "Arall", a gallent ddewis pob un sy'n berthnasol. Mae Ffigur 8 yn dangos nifer y gwasanaethau a ymatebodd i'r cwestiwn ac a nododd ba opsiynau maent yn eu defnyddio.

Nododd pob un o'r pum gwasanaeth eu bod yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth i oedolion i bobl ifanc; mae pedwar yn cwblhau proses/asesiad pontio; mae tri, mewn cyfuniadau gwahanol, yn cynnig y canlynol:

- dechrau siarad am y broses pontio o 14 oed
- cynnal apwyntiadau ar y cyd gyda awdiolegydd pediatrig ac awdiolegydd i oedolion yn bresennol (rhithwir neu wyneb yn wyneb)
- cynnig apwyntiad gyda'r gwasanaeth i oedolion cyn rhyddhau'r person ifanc o'r gwasanaeth i blant
- cynnig y cyfle i bobl ifanc i ddod i'r clinig heb riant/gofalwr, os yw'n briodol.

Adroddodd un gwasanaeth eu bod yn cynnal clinig neu ddigwyddiad pontio i bobl ifanc, nod nid oedd unrhyw wasanaeth yn cynnig ymweliadau ysgol.

Nid oedd unrhyw wasanaeth yn cynnig pob un o'r wyth opsiwn: roedd nifer yr opsiynau a gynigiwyd fesul gwasanaeth yn amrywio o dri i chwech. O'r ddau wasanaeth a ddewisodd "Arall", nododd un eu bod yn dechrau pontio yn eu gwasanaethau o 15 oed, ac esboniodd y llall mai'r un person yw'r awdiolegydd pediatrig ac oedolion.



Ffigur 8. Sut mae gwasanaethau clyw pediatrig yn paratoi pobl ifanc ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion

Mae tystiolaeth o arfer da, gyda rhai gwasanaethau’n defnyddio dulliau gweithredu mwy ymgysylltiol, megis apwyntiadau ar y cyd a chynnig y cyfle i bobl ifanc i ddod i’r clinig heb riant/gofalwr, os yw’n briodol. Ond, nid yw’r arfer hwn yn unffurf ar draws pob safle.

Apwyntiadau a gollir

Gofynasom i wasanaethau faint o apwyntiadau a gynigiwyd yn y cyfnod 1 Hydref 2022 i 30 Medi 2023 a’r gyfran ohonynt a ddosbarthwyd fel “Nas Dygwyd” (WNB) neu “Heb Fynychu” (DNA).

Blwyddyn 2023	Cyfanswm
Nifer yr holl apwyntiadau o bob math i blant	28,589
Nifer yr apwyntiadau a ddosbarthwyd fel WNB neu DNA ¹¹	4,050
Canran WNB/DNA	14%

Tabl 22: Cyfanswm yr apwyntiadau ac apwyntiadau a ddosbarthwyd fel WNB neu DNA

Darparodd pob un o’r pum gwasanaeth ddata yn yr adran hon. Cynigiwyd cyfanswm o 28,589 o apwyntiadau ar gyfer plant yn y flwyddyn a gwmpesir gan yr adroddiad hwn.

Y gyfradd WNB/DNA a adroddwyd ar draws wasanaethau oedd 14%, sy’n uwch na ffigur GIG Cymru o 7% DNA am bob apwyntiad cleifion allanol (2019¹²). Ond, mae absenoldebau'n tueddu i fod yn uwch ar gyfer plant a phobl ifanc, gan fod angen iddynt gael eu cludo gan oedolion. Mae’r ffigur yn debyg i’r gyfradd WNB/DNA yn y gwledydd eraill.

Mae cyfraddau uchel ar gyfer absenoldeb yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau sy’n ceisio ymdrin ag ôl-groniadau mewn amgylchiadau heriol a gall ddangos angen i wasanaethau i ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gwella cyfraddau presenoldeb.

Strategaethau ar gyfer apwyntiadau a gollir

Gofynasom i wasanaethau ba strategaethau maent yn eu defnyddio i atal apwyntiadau rhag cael eu colli.

Strategaeth	Nifer y gwasanaethau
Archebion rhannol	3
Neges destun atgoffa	2
Galwad ffôn atgoffa	4
Arall	4

Tabl 23: Strategaethau ar gyfer apwyntiadau a gollir

Adroddodd pedwar gwasanaeth eu bod yn defnyddio galwad ffôn atgoffa, tra bod tri yn defnyddio archebion rhannol a dau yn defnyddio neges destun atgoffa. Adroddodd un gwasanaeth eu bod yn trefnu apwyntiadau gyda’r teulu ar amser cyfleus iddynt, ac mae gwasanaeth arall yn defnyddio llythyrau cadarnhau. Dywedodd un gwasanaeth na allent ddefnyddio unrhyw fesurau oherwydd prinder staff gweinyddol.


¹¹ Gofynnwyd i wasanaethau yn unig am ganran yr apwyntiadau a ddosbarthwyd fel WNB/DNA. O ganlyniad, cyfrifir nifer yr apwyntiadau WNB/DNA o’r wybodaeth honno.

¹² StatsCymru. Presenoldeb cleifion allanol yn ôl sefydliad a safle. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Activity/Outpatient-Activity/outpatient-attendances-by-organisation-site> (cyrchwyd 22 Medi 2024).

25

Newidiadau yn y galw

Gofynasom i wasanaethau a oedd unrhyw feysydd lle mae'r galw wedi newid yn sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd rhestr o saith maes i'w hystyried ac roedd opsiwn "Arall" ar gael hefyd. Roedd pob un yn ymateb amlddewis.



Ffigur 9. Meysydd gwasanaeth sydd wedi gweld newid yn y galw

Adroddodd gwasanaethau gynnydd yn y rhan fwyaf o feysydd: gwelodd pedwar allan o bump gynnydd mewn asesiadau cyn-ysgol arferol, asesiadau cymhleth/apwyntiadau lluosog, anawsterau gwrando (clyw normal) ac atgyfeiriadau o sgrinio ysgol. Ni newidiodd asesiadau ysgol arferol ar gyfer tri allan o bum gwasanaeth. Adroddodd un gwasanaeth a ddewisodd "Arall" gynnydd yn y galw am osod cymhorthion clyw ar gyfer colled clyw dros dro oherwydd yr amser aros hir i weld ENT a'r amser aros hir am ymyrraeth.

Ysgogwyr newidiadau yn y galw

Gofynnwyd i wasanaethau hefyd am y rhesymau dros newidiadau yn y galw. Mewn rhai achosion, efallai nad oedd data galw ar gael ond cafodd ei adrodd yn anecdotaidd gan wasanaethau.

Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Asesiad cyn-ysgol:
 - pryderon cynyddol ynghylch datblygiad lleferydd ac iaith
 - mwy o atgyfeiriadau ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth.
- Asesiadau oedran ysgol arferol:
 - cynnydd mewn atgyfeiriadau oherwydd ailgyflwyno'r Sgrin Clyw i Blant Ifanc yn yr Ysgol ar ôl Covid-19.
- Asesiad cymhleth/apwyntiadau lluosog:
 - mwy o ymwybyddiaeth am y cysylltiadau gyda cholled clyw ac anghenion ychwanegol.

- ABR o dan dawelydd:
 - methu â chael canlyniadau ymddygiadol (yn gysylltiedig â gweld mwy o blant gydag anghenion cymhleth).
- Anawsterau gwrando (o dan glyw normal):
 - ailgyflwyniad i amgylchedd ystafell ddsbarth/iard chwarae ar ôl Covid-19.
- Atgyfeiriadau o sgrinio ysgol:
 - mwy o blant nad ydynt yn ddatblygiadol abl i gwblhau sgrin
 - sgrin clyw i blant ifanc yn yr ysgol wedi'i ailgyflwyno a dal i fyny ar ôl Covid-19.
 - Gweithdrefnau gweithredu safonau lleol wedi'u diweddarau gan roi ar waith meini prawf atgyfeirio llymach gan nysys iechyd ysgol.

Ymdopi â newidiadau yn y galw

Gofynasom i wasanaethau beth fyddai'n eu helpu i ymdopi â newidiadau yn y galw. Nid oedd pob gwasanaeth wedi darparu ymateb. Roedd yr ymatebion yn cynnwys y canlynol: cyflwyno mwy o gyfleusterau profi, mwy o staff, mwy o staff wedi'u hyfforddi mewn pediatreg/electroffisioleg/ABR a gweithredu llwybr asesu anghenion cymhleth.

Meysydd arfer da neu arloesedd

Gofynnwyd i wasanaethau am unrhyw arferion da neu ateb arloesol yr hoffent eu rhannu ag eraill. Rhannodd tri gwasanaeth eu profiadau. Roedd yr ymatebion yn cynnwys: gwaith cymorth cynnar i blant cyn-ysgol – cydweithio gydag ysgolion a gwasanaeth athrawon y byddar; sgrinio clyw ysgol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth mewn ysgolion arbennig; defnyddio cronfeydd adfer Covid-19; gwasanaeth rheoli cwyr; a chlinigau ar y cyd gydag ENT.

Heriau presennol a disgwylidig

Gofynnwyd i wasanaethau am yr heriau y maent yn eu profi ar hyn o bryd a'r rhai y maent yn eu disgwyl yn y dyfodol. Darparodd pob un o'r pum gwasanaeth ymatebion, gan nodi bod heriau presennol yn cynnwys:

- amseroedd aros hir ac ôl-groniadau
- prinder staff gyda'r profiad a'r sgiliau cywir
- cyfarpar ABR diffygiol
- cyfleusterau cyfyngedig ar gyfer profi pant o dan bedair oed
- oherwydd yr amseroedd aros hir ar gyfer llawdriniaeth gromed ac ENT, mae gwasanaethau'n gosod mwy o blant â chymhorthion clyw, sydd wedi cynyddu'r amser sydd ei angen ar gyfer adolygiadau cymhorthion clyw.

Roedd yr heriau a disgwylir yn cynnwys:

- ariannol – adnoddau ar gyfer wasanaethau, gan gynnwys cyfarpar cyfalaf (ar gyfer cyfarpar sy'n rhy hen)
- cynnydd yn y galw heb gynnydd mewn staffio
- cynnydd posibl yn atgyfeiriadau o NBHSW os yw'r rhaglen yn mabwysiadu model ymateb clir dwyochrol
- cyflwyniad posibl o amseroedd aros adroddadwy i Lywodraeth Cymru.

Adran 11: Cyllid a chomisiynu

Gofynnwyd i wasanaethau sut y darperir eu cyllid a chynigiwyd pum opsiwn iddynt, ac fe allent ddewis pob un sy'n berthnasol:

- fel contract bloc o fewn gwasanaethau ENT

- fel contract bloc o fewn gwasanaethau plant ehangach
- fel contract bloc ar gyfer gwasanaethau awdioleg plant
- fel contract bloc ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion
- fel tariff unigol fesul plentyn/person ifanc.

Dangosodd eu hymatebion:

- Darperir cyllid ar gyfer tri gwasanaeth fel contract bloc ar gyfer gwasanaethau awdioleg plant ac oedolion.
- Nid oes gan un gwasanaeth unrhyw gcontractio ar waith o ran cyllid ar gyfer awdioleg.
- Mae un gwasanaeth yn cael cyllid bwrdd lechyd gan Lywodraeth Cymru a chyllid gan y GIG i ddarparu'r gwasanaeth (ni nodasant pa fath o gcontract).

Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno tystiolaeth am rai cyfleoedd a heriau sy'n debygol o effeithio ar blant a phobl ifanc y mae angen arnynt fynediad amserol at wasanaethau awdioleg o ansawdd da yng Nghymru. Mae'r heriau yn cynnwys amseroedd aros hir ar gyfer asesiadau cyntaf cyffredin, adolygiadau cymhorthion clyw, gwasanaethau ENT a chwrdd â'r newidiadau mewn galw. Mae awdiolegwyr pediatrig yn nodi rhai rhwystrau i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus megis cyllid, amser i astudio ac argaeledd lleol. Mae amrywioldeb yn y modd y mae cyllid ar gyfer awdioleg pediatrig yn cael ei ddarparu.

Mae Cymru yn gweithredu adolygiad o bolisi sgrinio clyw babanod a chroesawn y cyfle a ddaw yn sgil hwn i gynyddu nifer y plant sydd â PCHI sy'n cael eu hadnabod yn iau.

Mae yna dystiolaeth o arfer da megis, gosod cymhorthion clyw mewn modd amserol, ymgorffori sicrhad ansawdd, hyblygrwydd o ran amseroedd apwyntiadau, cydweithio a phontio i wasanaethau oedolion.

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn ddiolchgar iawn i wasanaethau awdioleg am rannu'r mewnwelediadau hyn, yn enwedig yng ngoleuni'r holl heriau y mae gwasanaethau a gweithwyr awdioleg proffesiynol yn eu hwynebu yn yr hinsawdd economaidd bresennol sy'n effeithio ar y GIG. Bydd y dystiolaeth hon yn hanfodol wrth ein helpu i ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol sy'n effeithio ar y meysydd pryder yn awdioleg.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr adroddiad hwn neu ein gwaith, cysylltwch â professionals@ndcs.org.uk.